Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

# Efrydiaeth Ôlraddedig Llewelyn Williams

*Darperir yr Efrydiaeth o incwm Cronfa Ymddiriedolaeth Llewelyn Williams a godwyd gan gyfeillion y diweddar W Llewelyn Williams KC AS (1867-1922), sef cyfeillion yn y gyfraith yn bennaf, i beri cofio ei enw a'i throsglwyddo i Brifysgol Cymru er ariannu gwobrau neu ysgoloriaeth yn unol â phenderfyniad y Brifysgol.*

1. Defnyddir yr incwm blynyddol sy'n deillio o Gronfa Ymddiriedolaeth Llewelyn Williams i ddarparu efrydiaethau ôlraddedig ar gyfer ymchwil yn Hanes Cymru (a ddehonglir i gynnwys y gyfraith yng Nghymru ac agweddau economaidd ar fywyd yng Nghymru). Dyfernir efrydiaeth, y bydd ei gwerth yr un fath ag a delir i ddeiliad un o efrydiaethau'r Wladwriaeth[1], o dro i dro, fel y'i cyhoeddir, ar yr amod bod ymgeisydd teilwng ar gael.
2. Rhoddir y dyfarniad i unigolyn sydd wedi graddio o Brifysgol yng Nghymru yn y Celfyddydau neu'r Gyfraith.
3. Dylai ymgeiswyr am y dyfarniad wneud cais yn ysgrifenedig i UWRET, ar neu cyn 1 Mehefin[2]. Rhaid i'r myfyriwr y rhoddir y dyfarniad iddo/iddi roi gwybod i UWRET cyn i'r sesiwn dilynol ddechrau pa waith ymchwil y mae'n bwriadu ei wneud.
4. Delir yr efrydiaeth am un flwyddyn academaidd o ddyddiad y dyfarniad a gellir ei hadnewyddu am ail flwyddyn.[3]
5. Amod y ddeiliadaeth fydd bod y deiliad yn dilyn cynllun ymchwil mewn Prifysgol yng Nghymru neu'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd ond fe all UWRET roi caniatâd, ar argymhelliad Prifysgol yng Nghymru neu'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, i'r ymchwil gael ei dilyn mewn rhyw fan arall yn ail flwyddyn deiliadaeth yr efrydiaeth, ac mewn amgylchiadau eithriadol ym mlwyddyn gyntaf deiliadaeth yr efrydiaeth.
6. Ym mhob blwyddyn y mae'n dal yr efrydiaeth, rhaid i ddeiliad yr efrydiaeth gyflwyno adroddiad ar eu gwaith a'u cynnydd drwy eu Sefydliad.

   Rhaid i'r adroddiad ym mlwyddyn gyntaf y ddeiliadaeth gael ei gyflwyno gan y Sefydliad i UWRET erbyn 15 Mai. Rhaid iddo gynnwys datganiad ynghylch yr ymchwil a fwriedir ar gyfer yr ail flwyddyn ac ym mha le y bwriedir dilyn yr ymchwil honno.

   Rhaid i'r adroddiad ym mlwyddyn gyntaf y ddeiliadaeth gael ei anfon gan y Sefydliad i'r Brifysgol, ynghyd â sylwadau'r Sefydliad arno, erbyn 15 Mehefin. Rhaid i'r Sefydliad ddatgan a yw'n argymell bod deiliadaeth y myfyriwr ar yr efrydiaeth yn parhau am yr ail flwyddyn, ac, os felly, y pwnc a'r lle ymchwilio a fwriedir ar gyfer y myfyriwr.

   Rhaid i adroddiad y myfyriwr ar ddiwedd ail flwyddyn yr efrydiaeth gael ei gyflwyno i'r Sefydliad erbyn 1 Medi, a'i anfon ymlaen i UWRET gan y Sefydliad, ynghyd â'i sylwadau, erbyn 1 Hydref.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achredig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Mewn rhai blynyddoedd gellir estyn y dyddiad cau
3. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael